



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Arolygiad o'r trefniadau ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal Plant mewn Angen yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mawrth 2013

Arolygiad o'r trefniadau ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal Plant mewn Angen yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Mawrth 2013.

Dyddiad yr Arolygiad

12 Mawrth 2013 - 15 Mawrth 2013

Y Tîm Arolygu

Y Prif Arolygwr: Angela Mortimer

Arolygwyr Tîm: Margaret Burton, Sheila Booth, Pam Clutton a Marc Roberts

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan www.cssiw.org.uk

Os oes arnoch eisiau fformat arall, cysylltwch â ni yn cssiw@wales.gsi.gov.uk

Diolchiadau

Dymuna'r arolygwyr ddiolch i swyddogion y cyngor am y cymorth a roddwyd i'r arolygiad o ran cynllunio ymlaen llaw ac o ran cefnogi'r gweithgarwch arolygu ar y safle hefyd, ac i'r teuluoedd, y gofalmwyr yr asiantaethau sy'n bartneriaid a'r staff a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn.

CYNNWYS

1. Rhagarweiniad	tudalen 2
2. Methodoleg	tudalen 4
3. Crynodeb	tudalen 6
4. Gwerthusiad yn erbyn Maen Prawf 1	tudalen 8
5 Gwerthusiad yn erbyn Maen Prawf 2	tudalen 11
6. Gwerthusiad yn erbyn Maen Prawf 3	tudalen 14
7. Gwerthusiad yn erbyn Maen Prawf 4	tudalen 16
8. Argymhellion	tudalen 19

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Yn 2010 nododd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod asesu a rheoli gofal plant yn feysydd oedd angen eu gwella yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol (CBS) Wrecsam. Cynhaliwyd arolygiad yn 2011 a dilyniant i hwnnw yw'r arolygiad presennol. Nodwyd yn adroddiad gwerthuso perfformiad blynyddol 2011/12 y byddai'r arolygiad cyfredol hwn yn angenrheidiol.
- 1.2. Cynhaliwyd arolygiad 2011 o'r trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal plant mewn angen yn CBS Wrecsam ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2011. Canfu'r arolygiad rai enghreifftiau o arfer da, o berthynas gadarnhaol gydag asiantaethau oedd yn bartneriaid a dull egniol o ddatblygu gwasanaethau atal. Canfu'r arolygiad hefyd fod angen gwelliant sylweddol mewn nifer o agweddau allweddol ar y prosesau asesu a rheoli gofal. Cawsai rhai meysydd oedd angen eu gwella eu nodi drwy reolaeth perfformiad y cyngor ei hun. Roedd camau gwella wrthi'n cael eu cyflwyno ond, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y rhain wedi rhoi tystiolaeth glir fod y canlyniadau i blant yn well.
- 1.3 Roedd adroddiad gwerthuso perfformiad 2011/12 yn cydnabod bod y cyngor yn parhau i wneud gwelliannau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cynnal proses a gweithdrefnau amddiffyn plant yn brydlon. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ffaith fod y cyfraddau ailatgyfeirio yn y gwasanaethau plant yn dal yn uchel, a'r ffaith fod prydlondeb asesiadau cychwynnol a chraidd, ynghyd â rhai dangosyddion perfformiad cysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal, mor araf i wella, roedd angen arolygiad pellach o'r gwasanaethau plant.

- 1.4 Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar berfformiad y cyngor o ran ymateb i atgyfeiriadau a chysylltiadau. Detholwyd sampl o achosion, a gyfeiriwyd at y cyngor rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2012, i'r arolygwyr eu dadansoddi. Dewiswyd y dyddiadau hyn er mwyn ceisio cael darlun mor ddiweddar ag yr oedd modd o berfformiad, ond cydnabyddir bod hyn wedi cyfyngu ar y graddau y gellir gwneud sylwadau ar berfformiad y cyngor o ran rheoli achosion, sy'n gymwys i dderbyn ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol, yn y tymor hir.

2. Methodoleg

- 2.1 Roedd y gwaith maes yn cynnwys gweithgareddau arolygu a gynhaliwyd gan dîm o arolygwyr o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar y safle yn Wrecsam dros bedwar diwrnod o 12 Mawrth 2013 hyd 15 Mawrth 2013.
- 2.2 Canolbwyntiai'r arolygiad ar werthuso prydlondeb ac ansawdd y gwaith o asesu a chefnogi plant mewn angen a'u teuluoedd, a gyflawnid gan wasanaethau'r cyngor a chan y rheiny y mae'r cyngor yn eu comisiynu ac yn gweithredu gyda hwy mewn partneriaeth.
- 2.3 Edrychodd y tîm arolygu ar achosion plant, oedd wedi derbyn asesiad cychwynnol gan y gwasanaeth Atal a Gofal Cymdeithasol i Blant. Cawsai'r achosion eu cyfeirio at y cyngor rhwng 1 Hydref 2012 a 31 Rhagfyr 2013. Yn ôl cymhlethdod yr achosion, ychydig o ymwneud fu â rhai achosion a chafwyd llawer o ymwneud ag eraill.

2.4 Edrychodd y tîm arolygu ar berfformiad y cyngor yn erbyn pedwar maen prawf asesu, o ran ei berfformiad cyfredol ac o ran y posibilïadau ar gyfer gwelliant i'r dyfodol:

(i) Caiff plant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr eu cynorthwyo drwy asesiad, rheoli gofal ac arferion adolygu sy'n cydymffurfio â pholisi cenedlaethol, y canllawiau statudol a'r rheoliadau.

(ii) Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr yn elwa o ystyried a defnyddio amrywiaeth o wasanaethau cymorth sy'n addas i'w hanghenion.

(iii) Caiff plant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr eu cynorthwyo gan staff sy'n cael eu goruchwylio'n briodol ac sy'n derbyn cymorth addas gan eu rheolwyr.

(iv) Caiff canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr eu sicrhau drwy reoli perfformiad a sicrhau ansawdd yn effeithiol ac yn gyson.

2.5 Cyn i'r gwaith maes gychwyn ar y safle roedd y cyngor wedi darparu amrywiaeth o ddogfennau ynghylch y ffordd yr oedd y cyngor yn darparu cefnogaeth i blant a theuluoedd oedd angen cymorth.

2.6 Ar y safle, bu'r tîm arolygu'n archwilio pedwar ar bymtheg o achosion oedd wedi derbyn asesiad cychwynnol. Roedd rhai o'r rhain wedyn wedi derbyn cymorth gan y gwasanaethau plant. Darllenwyd sampl o ffeiliau goruchwylio staff hefyd.

2.7 Cyfarfu'r tîm arolygu â gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr timau, uwch reolwyr, plant, teuluoedd a chyrff oedd yn bartneriaid. Casglwyd tystiolaeth drwy'r holl weithgareddau hyn.

2.8 Cafodd dau deulu hefyd, oedd wedi eu hatgyfeirio at Sicrhau newid Gyda'n Gilydd (TAC), eu cyfweld gan yr arolygwyr.

2.9 Casglwyd tystiolaeth ychwanegol allan o weithgaredd arolygu thematig a rheoliadol AGGCC.

3. Crynodeb

- 3.1 Dengys dadansoddiad y ffeiliau achos fod y cyngor wedi gwella ei berfformiad mewn nifer o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys prydlondeb yr asesiadau cychwynnol a gwneud penderfyniadau. Mae'r cyngor wedi cyflwyno nifer o fesurau i wella ansawdd y cofnodion a gedwir. Mae'r ffurflen adrodd am ymweliad wedi gwella cofnodi p'un a welwyd y plentyn neu beidio yn ystod yr ymweliad. Roedd gwelliant yn ansawdd y cofnodion a welwyd yn y ffeiliau achos.
- 3.2 Cafwyd mai anghyson oedd ansawdd yr asesiadau ac erys hwn yn faes sydd angen ei wella. Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau o asesiadau boddhaol. Gwelwyd bod asesiadau eraill yn wan, yn brin o fanylion a dadansoddiad trylwyr, yn enwedig gyda golwg ar asesu a rheoli risg. Mae'r cyngor ei hun wedi nodi bod angen gwelliant pellach yn ansawdd yr asesiadau ac mae yn y broses o gyflwyno gweithdrefnau asesu risg newydd. Roedd y newidiadau hyn wedi eu trefnu i ddod yn weithredol ar ôl i'r arolygiad gael ei gwblhau.
- 3.3 Mae'r cyngor wedi sicrhau gwelliant o ran y nifer llai o ailatgyfeiriadau a dderbyniodd yr adran. Fodd bynnag, gwelwyd dwy esiampl lle y derbyniwyd atgyfeiriadau lluosog cyn i asesiad gael ei gynnal. Roedd yna achos pellach lle y dangosai'r dadansoddiad achos y dylid bod wedi cynnal asesiad yn gynt. O'r 19 achos a adolygwyd gan yr arolygwyr, roedd 7 yn atgyfeiriadau hollol newydd a chawsai 12 eu cyfeirio at yr adran 1 neu ragor o droeon o'r blaen. Yn rhai achosion roedd hyn o fewn 12 mis. Argymhellir bod y cyngor yn adolygu'r gweithdrefnau sydd ganddo yn eu lle er mwyn sicrhau bod ailatgyfeiriadau yn cael eu dyrannu'n gyson ar gyfer eu hasesu, yn unol â'i bolisi.
- 3.4 Mae'r cyngor wedi parhau i ddatblygu ei wasanaethau atal a derbyniodd yr arolygwyr adborth cadarnhaol iawn gan ddefnyddwyr gwasanaethau, oedd wedi defnyddio gwasanaeth y Tîm o amgylch y Plentyn (TAC). At hynny, adroddid bod y berthynas gyda'r asiantaethau eraill yn gweithio'n dda.

- 3.5 Mae'r cyngor wedi cymryd camau i wella'r modd y mae'n rheoli perfformiad gan gynnwys creu mwy o swyddi rheolwyr cynorthwyol a chynnal goruchwyliaeth reolaidd. Er nad oedd rhaglen sicrhau ansawdd gynhwysfawr wedi ei sefydlu ar adeg yr arolygiad, hysbyswyd yr arolygwyr y bydd hon yn ei lle erbyn Mehefin 2013 a dylai hyn arwain at y gwelliant pellach sydd ei angen mewn perfformiad o ran asesu a rheoli gofal.

4. Gwerthusiad yn erbyn Maen Prawf 1

- 4.1 Caiff plant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr eu cynorthwyo drwy asesiad, rheoli gofal ac arferion adolygu sy'n cydymffurfio â pholisi cenedlaethol, y canllawiau statudol a'r rheoliadau.

Cryfderau

Mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle ac ar gael yn rhwydd.

Gwneir penderfyniadau prydlon ynghylch yr atgyfeiriadau a dderbynnir.

Dyrennir atgyfeiriadau i weithwyr profiadol.

Adroddir am adolygiad prydlon o achosion Plant mewn Angen, Amddiffyn

Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal.

Meysydd i'w Datblygu/Gwella

Ansawdd asesiadau a chynllunio.

Adolygu ailatgyfeiriadau er mwyn sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu dyrannu'n gynt.

Datblygu'r system RAISE ymhellach i ddangos cofnodion yr holl wiriadau Amddiffyn Plant a gwiriadau eraill.

Adolygu pa mor aml y ceir trafodaethau strategaeth yn hytrach na chyfarfodydd strategaeth.

Cofnodi asesiad risg.

- 4.2 Yn Wrecsam, y Tîm Asesu Plant a Theuluoedd (CAFAT) sy'n derbyn yr holl atgyfeiriadau a chysylltiadau a wneir â'r adran. Mae yna reolwr ar ddyletswydd yn barhaol, sy'n rheoli ac yn goruchwyllo'r broses. Mae aelod o'r tîm Sicrhau Newid Gyda'n Gilydd (TAC) hefyd yn yr ystafell ddyletswydd yn barhaol, i hwyluso trafodaethau ynghylch p'un fyddai'r mwyaf addas, ai dyrannu plentyn neu deulu at weithiwr cymdeithasol yn yr adran Atal a Gofal Cymdeithasol ynteu cynnig gwasanaeth gan TAC. Mae llawlyfr desg ddyletswydd CAFAT ar gael i gynorthwyo gyda phenderfyniadau ynghyd â dogfen Meini Prawf Cymhwysra ar gyfer atgyfeirio i'r adran Atal a Gofal Cymdeithasol a'r ddogfen Dosbarthu Cysylltiad i CAFAT.

- 4.3 Yn dilyn cyflwyno gweithdrefnau newydd ar gyfer gwahaniaethu rhwng cysylltiadau ac atgyfeiriadau, mae'r cyngor wedi sicrhau gostyngiad yng nghyfradd yr ailatgyfeiriadau y mae'n eu derbyn. Yn yr achosion a ddadansoddwyd, gwelwyd dwy esiampl lle nad oedd ailatgyfeiriadau wedi eu dyrannu ar gyfer asesiad hyd nes yr oedd nifer o atgyfeiriadau wedi eu derbyn. Nid yw hyn yn cyd-fynd â pholisi'r cyngor. Efallai y byddai cychwyn archwiliad amlasiantaethol misol o'r atgyfeiriadau na chafodd eu dyrannu (fel a fabwysiadwyd gan rai cynghorau) yn ei gwneud yn bosibl sicrhau ansawdd y rhan hon o'r broses yn fwy effeithiol.
- 4.4 Yn y sampl o ffeiliau achos, gwelwyd bod penderfyniadau wedi cael eu gwneud o fewn 24 awr ar gyfer 17 allan o'r 19 achos, a gwelwyd bod y broses benderfynu wedi bod yn addas hyd at y pwynt yma yn y rhan fwyaf o achosion a ddarllenwyd.
- 4.5 Yn y mwyafrif o'r achosion a ddadansoddwyd, cynhaliwyd asesiadau ar amser. Mae'r sylw hwn yn gyson â'r dangosyddion perfformiad a ddarparwyd gan y cyngor. Er bod yr arolygwyr wedi canfod bod rhai asesiadau'n foddhaol, gwelsant fod rhai eraill yn wan neu wael. Disgrifiodd un arolygwr hwy fel asesiadau'n cael eu harwain gan ddigwyddiadau, yn hytrach na rhai cyfannol, a thueddent i fod yn ddisgrifiadol yn hytrach na dadansoddol. Cyfeiriwyd un achos at Bennaeth y Gwasanaeth oherwydd natur wael yr asesiad oedd wedi ei gofnodi yn y ffeil a'r diffyg tystiolaeth oedd yna fod y camau angenrheidiol wedi cael eu cymryd. Ymatebwyd yn fuan i'r cyfeiriad hwn.
- 4.6 Roedd cronolegau a genogramau ar gael yn ymron bob ffeil. Mae goruchwyliaeth y rheolwr yn sicrhau bod hyn yn wir cyn i'r ffeiliau gael eu cau neu eu trosglwyddo. Syml iawn oedd y genogramau ambell waith ac nid oedd y cronolegau wedi eu cwblhau bob tro mewn ffordd a ddangosai eu bod yn cael eu hystyried yn offeryn gwaith achos defnyddiol. Gwelwyd mewnbwn asiantaethau eraill i'r asesiadau ac mae'n adlewyrchu'r berthynas waith ryngasiantaethol gadarnhaol yr adroddai'r arolygwyr amdani. Ychydig o dystiolaeth oedd yna fod adborth ffurfiol yn cael ei rhoi i'r bobl oedd yn gyfrifol am atgyfeirio.

- 4.7 Mae'r cyngor wedi cydnabod bod gwella ansawdd asesiadau yn flaenoriaeth barhaus ganddo. Cyflwynwyd dogfen asesu gyfunol yn ddiweddar. Nod ddatganedig hon yw 'bod yn ddogfen fydd yn haws i blant a phobl ifanc a rhieni ei darllen a'i deall ac a fydd felly'n eu galluogi i deimlo eu bod yn rhan o'r broses asesu'. Dewiswyd nifer o achosion, fel rhan o'r sampl o achosion, lle roedd y ddogfen asesu gyfunol wedi cael ei defnyddio. Dangosai'r rhain yr angen i ymarferwyr sicrhau bod dadansoddiad o'r plentyn unigol yn cael ei gofnodi'n llawn yn ogystal â'r teulu. Sampl fechan oedd hon ac nid oedd yn cynnig tystiolaeth derfynol i welliant yn ansawdd yr asesiadau.
- 4.8 Roedd mwy o gymorth gan reolwyr a mwy o hyfforddiant ar fethodoleg asesu risg newydd wrthi'n cael ei gyflwyno ar adeg yr arolygiad, Mae'r cyngor yn cyflawni'n dda o ran dyrannu atgyfeiriadau i weithwyr cymwysedig ond nid yw hyn wedi sicrhau bod y gwelliant, sy'n ofynnol yn ansawdd yr asesiadau ar draws yr adran, wedi ei ddangos yn gyson ac mae angen i reolwyr wneud gwaith pellach i arwain y gwelliant hwn.
- 4.9 Canfu'r arolygwyr y cynhelid trafodaethau strategaeth amddiffyn plant yn brydlon ar y cyfan ond ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd bod cyfarfodydd strategaeth yn cael eu cynnal. Mae'r cyngor a'r heddlu'n ymwybodol o'r mater hwn a chaiff ei ystyried dan brosiect Vanguard, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.

5. GWERTHUSIAD YN ERBYN MAEN PRAWF 2

- 5.1 Maen Prawf 2:- Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr yn elwa o ystyried a defnyddio ystod o wasanaethau cymorth sy'n addas i'w hanghenion.

Cryfderau

Mae ystod dda o wasanaethau atal ar gael.

Defnyddir y Fframwaith Asesu Cyffredin ar gyfer atgyfeirio i TAC neu wasanaeth Atal a Gofal Cymdeithasol y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae TAC yn derbyn adborth cadarnhaol iawn gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol.

Digwyddiadau rhwydwaith amlasiantaethol.

Meysydd i'w Datblygu/Gwella

Datblygu adnodd gofalwyr maeth therapiwtig ymhellach.

Mae angen i lais y plentyn fod yn amlycach yn y ddogfennaeth asesu er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau y rhai mwyaf addas i ateb angen yr unigolyn.

- 5.2 Dangosai dadansoddiad y ffeiliau achos fod gwelliant wedi bod mewn cofnodi ethnigrwydd a dewis iaith ers yr arolygiad diwethaf, gydag ethnigrwydd wedi ei gofnodi yn 17 o'r ffeiliau a ddarllenwyd ac iaith mewn 18. Nid yw crefydd y plentyn wedi ei ddogfennu gystal.

- 5.3 Derbyniwyd adborth cadarnhaol o gyfweiliadau gyda'r staff a defnyddwyr gwasanaethau ynghylch y gwasanaethau a ddarperid. Teimlid bod ystod eang o wasanaethau ar gael a gwnaed sylwadau cadarnhaol ynghylch y canolfannau i deuluoedd, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg, y Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd a'r TAC. Teimlid fod yna gyfathrebu a pherthynas waith dda rhwng asiantaethau. Adroddid bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau atal yn hawdd i gael mynediad atynt ond cyfeiriwyd at y rhestrau aros am wasanaethau *Action for Children* ac, er nad oes yna restr aros ar gyfer TAC, teimlid bod dyrannu ar gyfer y gwasanaeth hwn weithiau'n araf. Roedd cyfweiliadau gydag asiantaethau eraill yn cefnogi'r farn gadarnhaol ynghylch y berthynas waith rhwng asiantaethau ac adlewyrchir hyn yn adroddiad y Loteri Fawr (Gorffennaf 2011-12).
- 5.4 Ystyrid y digwyddiadau rhwydwaith amlasiantaethol yn ddull cadarnhaol iawn o rannu gwybodaeth a dealltwriaeth.
- 5.4 Mae gan wasanaeth TAC, sy'n cynnwys llu o wasanaethau ac asiantaethau, ran bwysig i'w chwarae mewn darparu gwasanaethau atal yn Wrecsam. Mae Wrecsam wedi cyflawni swyddogaeth flaenllaw yn natblygiad y gwasanaeth hwn, sydd bellach yn darparu gwasanaeth ar gyfer dros 200 o blant a theuluoedd.
- 5.5 Defnyddir y Fframwaith Asesu Cyffredin (CAF) i atgyfeirio at y gwasanaeth Atal a Gofal Cymdeithasol neu TAC, er mwyn symleiddio'r broses atgyfeirio ac osgoi bylchau mewn darpariaeth. Yn ystod dadansoddiad y ffeiliau achos, gwelwyd tystiolaeth o achosion oedd yn trosglwyddo o wasanaethau Atal a Gofal Cymdeithasol i TAC ac yn ôl eto, wrth i anghenion y teulu newid. Gwelodd arolygwyr arwyddion y gallai llwyddiant prosiect TAC beri ei fod yn dod yn fan lle roedd yr holl achosion, oedd yn ffiniol o ran bod yn gymwys i dderbyn gwasanaeth Atal a Gofal Cymdeithasol, yn diweddu. Mae ansawdd asesiadau cychwynnol, gan gynnwys dadansoddi risg, o'r pwys mwyaf i sicrhau bod achosion yn cael eu dyrannu'n addas. Dylai achosion, sy'n agored i TAC, hefyd gael eu monitro'n systematig er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu hateb yn effeithiol ac nad yw lefel y risg wedi codi.

- 5.6 Siaradodd yr arolygwyr â dau ddefnyddiwr gwasanaeth oedd wedi bod yn ymwneud â gwasanaethau TAC ac roedd y ddau yn canmol y gwasanaeth yn frwd dros ben. Siaradai un arall, oedd wedi ei atgyfeirio'n ddiweddar, am yr ymateb prydlon gan y gwasanaeth.
- 5.7 Rhoddodd y cyngor wybodaeth i'r arolygwyr ynglŷn â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn Wrecsam. Mae niferoedd y plant sy'n dod i dderbyn gofal bob mis wedi aros yn debyg i'r llynedd ond mae'r nifer sy'n aros mewn gofal am gyfnodau hirach wedi cynyddu fymryn. Mae'r cyngor yn dal i ddatblygu ei adnodd o ofalwyr maeth therapiwtig er mwyn ei alluogi i ateb anghenion y plant a'r bobl ifanc sy'n dod i mewn i ofal o fewn Wrecsam lle bynnag y bo modd. Nid yw nifer y gofalwyr maeth therapiwtig wedi cynyddu mor gyflym ag y gobeithid. Bellach mae yna 3 set o ofalwyr llawn amser a 2 sy'n darparu gofal seibiant. Mae 2 ofalwr llawn amser posibl wrthi'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ac mae ymgyrch recriwtio wedi ei chynllunio ar gyfer mis Mai.
- 5.8 Mae'r cyngor yn adrodd am welliant ym mhrydlondeb ymweliadau â phlant, gan gynnwys yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal. Dengys eu hystadegau perfformiad fod 71% o blant wedi cael eu gweld yn ystod yr asesiad cychwynnol am 9 mis cyntaf y flwyddyn hon. Caiff hyn ei ategu gan y sampl o ffeiliau achos a ddarllenwyd gan yr arolygwyr, lle roedd cofnod wedi ei wneud yn 8 o'r 19 achos fod sgwrs wedi cael ei chynnal gyda'r plentyn, a lle y nodwyd mewn 16 achos fod y plentyn wedi cael ei arsylwi. Roedd dadansoddiad o'r graddau y cedwid y plentyn ar flaen y broses, neu y câi ei ddymuniadau eu cymryd i ystyriaeth, yn llai cadarnhaol. Ychydig o dystiolaeth ffurfiol oedd ar gael yn y ffeiliau achos fod yr asesiad wedi cael ei rannu gyda phobl. Fodd bynnag, awgrymai llythyrau cau achosion, a welwyd mewn ffeiliau, ynghyd ag adborth a dderbyniwyd gan ddefnyddiwr gwasanaeth fod yr asesiad wedi ei rannu gydag ef yn bersonol ac yn ysgrifenedig, fod hyn o bosibl yn digwydd yn amlach nag y mae wedi ei gofnodi.

6. GWERTHUSIAD YN ERBYN MAEN PRAWF 3

- 6.1 Maen Prawf 3:- Caiff plant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr eu cynorthwyo gan staff sy'n cael eu goruchwyllo'n briodol ac yn derbyn cymorth addas gan eu rheolwyr.

Cryfderau

Cafwyd cynnydd yn y cymorth gan reolwyr drwy greu swyddi Rheolwyr Timau Cynorthwyol newydd.

Darperid goruchwyliaeth reolaidd.

Ceid mynediad da at hyfforddiant.

Meysydd i'w Datblygu/Gwella

Ystyried gallu o ran staff a rheolwyr.

Datblygu RAISE, y system TG, ymhellach i fod o gymorth i gadw cofnodion sydd o'r safon ofynnol.

- 6.2 Mae sefydlogrwydd staff, o fewn y gwasanaethau plant yn eu cyfanrwydd, wedi gwella'n sylweddol ac er bod 3 aelod o staff wedi gadael tîm CAFAT yn y 12 mis diwethaf mae'r cyngor wedi cael ymateb da i hysbysebion ac mae'n disgwyl llenwi'r swyddi gweigion i gyd. Ar adeg yr arolygiad, fodd bynnag, roedd swyddi gweigion dros dro hefyd yn nhîm CAFAT, oherwydd absenoldeb mamolaeth a dyrchafiadau mewnol, sydd wedi golygu bod nifer (5) o staff asiantaeth yn llenwi swyddi mewn tîm o 12. Mae'r raddfa salwch o fewn CAFAT ar hyn o bryd yn gymharol isel.
- 6.3 Fe wnaeth canfyddiadau'r dadansoddiad beichiau gwaith godi cwestiynau ym meddyliau'r arolygwyr ynglŷn â gallu'r gweithlu a'r tîm rheoli i gyflawni'r gwelliannau gofynnol mewn asesu a chofnodi. Edrychwyd ymhellach ar y rhain mewn cyfweiliadau gyda staff a rheolwyr. Ystyrir bod nifer o ffactorau yn berthnasol i'r drafodaeth hon.

- 6.4 Yn nhîm CAFAT adroddid mai dim ond tri aelod o staff oedd yn meddu ar fwy na 3 blynedd o brofiad, gyda'r gweddill wedi cymhwyso'n ddiweddarach na hynny. Mae profiad cymharol gyfyngedig y staff sy'n gweithio yn y maes hwn yn gosod pwysau neilltuol ar gymorth y rheolwyr.
- 6.5 Cafodd mater niferoedd y gweithwyr cymdeithasol cymwysedig y mae'r cyngor yn eu cyflogi, yng ngoleuni ffigurau poblogaeth plant Wrecsam, ei godi yn yr adroddiad arolygu blaenorol. Mae'r cyngor wedi cymryd rhai camau i fynd i'r afael â phroblemau gallu drwy gyflogi un gweithiwr cymdeithasol ychwanegol yn y Tîm Gadael Gofal a chreu dwy swydd rheolwr tîm cynorthwyol ychwanegol, y naill yn y Tîm Cefnogi Teuluoedd a'r llall yn CAFAT.
- 6.6 Roedd niferoedd y beichiau achos, o fewn tîm CAFAT, yn ymddangos yn uchel i'r arolygwyr. Roedd y rheolwyr a'r gweithwyr cymdeithasol yn cydnabod bod y niferoedd wedi eu chwyddo i raddau gan yr achosion oedd yn disgwyl cael eu cau'n ffurfiol. Eglurodd y rheolwyr hefyd y câi pob plentyn mewn teulu ei gyfrif ar wahân.
- 6.7 Yn ystod yr arolygiad diwethaf, roedd y disgwyliad i'r gweithwyr cymdeithasol gynnal ffeiliau electronig a ffeiliau papur hefyd yn cyfrannu at yr anawsterau, y deuid ar eu traws wrth geisio cadw cofnodion o ansawdd da. Erbyn hyn, dim ond gyda ffeiliau electronig y mae gofyn i'r gweithwyr cymdeithasol weithio o ddydd i ddydd, ond disgwylir iddynt greu ffeiliau papur pan fydd achosion yn cael eu cau, sef yr holl achosion lle y gwnaed gwaith neu y casglwyd gwybodaeth o'r blaen. Mae hyn fel pe bai'n cyfrannu at y pentwr achosion, sy'n disgwyl i gael eu cau, o fewn y beichiau gwaith. Mae'r rheolwyr wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn drwy ddarparu gweithwyr cynorthwyol i fod o gymorth i gwblhau'r tasgau yma. Er bod camau'n cael eu cymryd i leihau maint beichiau achosion, bydd cyflymder prosesu'r achosion y mae CAFAT yn ymdrin â hwy, wrth i'r adran ymateb i'r nifer uwch na'r cyfartaledd o atgyfeiriadau y mae'n eu derbyn, yn parhau i achosi pwysau gwaith. Bydd hyn wedyn yn gorfodi'r cyngor i ystyried a oes yna ddigon o allu i'w gwneud yn bosibl cyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol.

7. GWERTHUSIAD YN ERBYN MAEN PRAWF 4

- 7.1 Maen Prawf 4:- Caiff canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr eu sicrhau drwy reoli perfformiad a sicrhau ansawdd yn effeithiol ac yn gyson.

Cryfderau

Mae goruchwyliaeth yn digwydd yn rheolaidd ac yn cael ei gwerthfawrogi gan y staff a'r rheolwyr.

Rhoddir adroddiadau perfformiad rheolaidd i'r rheolwyr ar lefel tîm unigol.

Meysydd i'w Datblygu/Gwella

Datblygu system RAISE ymhellach i fod o gymorth i ymarfer.

Cyflwyno trefniadau archwilio ansawdd i fod o gymorth i gyrraedd targedau gwelliant.

Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth.

Aelodau i ymwneud yn fwy amlwg â staff rheng flaen.

- 7.2 Mae'r cyngor wedi dangos gwelliant wrth gofnodi goruchwyliaeth. Cafodd hwn ei nodi fel maes ar gyfer gwella yn adroddiad arolygu 2012. Dangosai ffeiliau goruchwyllo a nodiadau goruchwyllo yn y ffeiliau achos a ddarllenwyd gan yr arolygwyr, yn ogystal â chyfweliadau gyda staff a rheolwyr, fod goruchwyliaeth yn digwydd yn rheolaidd ac y teimlid ei bod yn effeithiol. Cynhelir adolygiadau datblygiad perfformiad blynyddol hefyd. Darparodd y cyngor dystiolaeth o drafod materion gallu gydag aelodau'r staff.

- 7.3 Yn gyffredinol, teimlid bod hyfforddiant o fewn cyrraedd ac yn fuddiol. Mae ar gael i aelodau newydd o'r staff a darperir hyfforddiant mandadol ar raglen dreigl, gan sicrhau ei fod ar gael. Ni ddarperir hyfforddiant ar gyfer staff asiantaethau.

- 7.4 Mae cyflwyno'r ffurflen ymweld ers yr arolygiad diwethaf yn ymddangos fel pe bai wedi esgor ar welliannau mewn cofnodi ymweliadau â chartrefi a chofnodi'r adegau pan gafodd y plentyn ei weld. Mae'r cyngor yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach i'r system TG, RAISE, er mwyn galluogi gweithwyr cymdeithasol i gadw cronolegau achosion yn rhwyddach ac er mwyn ei gwneud yn hawdd gweld gwiriadau amddiffyn plant a gwiriadau eraill, p'un a ydynt wedi arwain at adroddiad cadarnhaol neu beidio. Nodwyd y ddau fater yma gan yr arolygwyr hefyd. Mae offeryn asesu risg, i helpu i gyflwyno model asesu risg newydd, hefyd yn cael ei wneud yn rhan o'r system RAISE.
- 7.5 Mae trefniadau rheoli perfformiad yn cynnwys gweithdai perfformiad chwarterol a chyfarfodydd misol rhwng pennaeth y gwasanaeth, rheolwyr timau a rheolwyr timau cynorthwyol i adolygu perfformiad timau unigol. Bydd y rheolwr perfformiad yn ymweld â thimau unigol i egluro materion perfformiad ac mae sesiynau gwella perfformiad penodol wedi cael eu cynnal ar bynciau megis arferion cofnodi. Caiff aelodau unigol o staff eu hannog i wella perfformiad drwy gynlluniau gweithredu unigol. Fodd bynnag, gwelliant araf yn unig sy'n dal i gael ei ddangos yn rhai o'r meysydd, y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn yr adroddiad, ac yn y meysydd hyn mae angen i'r cyngor ddadansoddi'r ffactorau sy'n ardaro ar eu targedau gwella.
- 7.6 Dywedodd y cyngor y bydd yn cyflwyno proses archwilio newydd i fod yn weithredol o fis Mehefin 2013, fydd yn darparu gwybodaeth am ansawdd y penderfyniadau a'r asesiadau ac yn cynnwys teuluoedd yn y broses hon. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd yna fod y trefniadau archwilio yn cyflawni'r gwelliant sy'n ofynnol yn ansawdd yr asesiadau.

- 7.7 Mae Wrecsam yn cydnabod yr angen i gynyddu cyfranogaeth ac ymgysylltiad plant a theuluoedd er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau drwy gyfrwng eu hadborth a'u cyfraniad hwy i ddylunio'r gwasanaethau. Mae'r ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau ar hyn o bryd wedi ei ddatblygu'n well mewn rhai gwasanaethau nag eraill, ond mae rhai syniadau newydd yn cael eu defnyddio i wella ymgysylltiad yn rhai o'r meysydd mwyaf heriol, sy'n cynnwys edrych ar ymddygiad yr ymarferwr. Mae'r cyngor wedi datblygu strategaeth ymgysylltu'r 'P Fawr' ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc. Mae rhwydwaith o weithgareddau ymgysylltu wedi ei ganoli ar Fforwm Ieuenctid Wrecsam, 'Senedd Yr Ifanc', sydd hefyd yn gysylltiedig â Senedd yr Ifanc Cymru. Mae Bwrdd Lleol Diogelu Plant iau hefyd wrthi'n cael ei ddatblygu.
- 7.8 Mae'r aelod arweiniol wedi cynnal ymweliadau â'r holl dimau rheng flaen yn ddiweddar, ond canfu'r arolygwyr nad oedd rhai o'r staff yn ymwybodol bod ymweliadau gan aelodau wedi digwydd ac efallai yr hoffai'r cyngor edrych yn ôl ar y trefniadau hyn er mwyn gweld sut i gael y budd llawn ohonynt.

8. Argymhellion

- 8.1 Mae'r cyngor wedi cymryd camau i gyflwyno gallu ychwanegol i wasanaethau plant. Mae cyfradd uchel yr atgyfeiriadau yn dangos yr angen am adolygiad pellach o'r gallu yn CAFAT.
- 8.2 Byddai cynnal archwiliad rheolaidd ar y penderfyniadau i gau atgyfeiriadau, heb gynnal asesiad cychwynnol, yn rhoi cyfle i'r cyngor graffu mwy ar y penderfyniadau a wneir ac yn tynnu sylw ar yr achosion lle y cafodd ailatgyfeiriadau eu derbyn.
- 8.3 Mae angen i'r cyngor ystyried cyflwyno systemau cadarnach er mwyn sicrhau ei fod yn cadw cofnod pan fydd asesiadau wedi eu rhannu gyda theuluoedd.
- 8.4 Dylid adolygu'r defnydd o drafodaethau strategaeth a chyfarfodydd strategaeth.